**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**

**21 Gorffennaf 2026**

**2-4:00pm**

**Drwy Teams**

| **Presennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Y Cynghorydd Linda Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cadeirydd) |
| Mydrian Harries | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-gadeirydd) |
| Dr Ardiana Gjini | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd |
| Lester Fulcher | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Naomi Mattiessen | Llywodraeth Cymru |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr |
| Dr Michael Thomas | Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd |
| Prif Uwch-arolygydd Jayne Butler | Heddlu Dyfed Powys |
| Claire Bryant | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Wyn Morris | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Kim Neyland | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **Presennol** | |
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Sarah Isaac | Arweinydd Clinigol |
| Rian Furlong | Tîm Prosiect Gwasanaethau Strôc |
| Rhian Rees | Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Llinos Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin - Tîm Cymorth BGC |
| Biana Ilanca | Yn arsylwi’r cyfarfod |
| Jeni Scott | Yn arsylwi’r cyfarfod |
| **Ymddiheuriadau** | |
| **Enw** | **Sefydliad** |

| | |
|---|---|
| Ainsley Williams | Cyfarwyddwr Lleoedd, Seilwaith a Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Liz Bowen | Y Gwasanaeth Prawf |
| Vanessa Cashmore | Coleg Sir Gâr / Ceredigion |
| Yr Athro Phil Kloer | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Gâr |
| Tim Bray | Cyngor Sir Ceredigion |

1. **Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Nodwyd yr ymddiheuriadau a oedd wedi'u derbyn ymlaen llaw.

Nodwyd fod Lester Fulcher, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau De Orllewin Cymru yn ymuno gyda'r cyfarfod fel dirprwy i Huwel.

Esboniwyd fod dwy unigolyn yn arsylwi y cyfarfod, sef Bianca Ilanca, sy'n gwirfoddoli gyda'r Bwrdd Iechyd a Jeni Scott, sy'n un o fyfyrwyr y cwrs Cyfieithu ar y Pryd yn y Drindod).

2. **Ymgynghoriad Gwasanaethau Strôc**

Croesawyd Sarah Isaac a Rian Furlong o'r Bwrdd Iechyd i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno'r ymgynghoriad Gwasanaethau Strôc.

Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd sefydlu dull rhaglen i ddatblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol mewn ymateb i wendidau gwasanaethau, yn seiliedig ar egwyddorion gofal.

Cydnabuwyd fod y Gwasanaethau Strôc yn wasanaethau bregus a bod angen cynnal ymgynghoriad pellach er mwyn sicrhau dealltwriaeth a sylfaen dystiolaeth gref.

Lansiwyd yr ymgynghoriad Cam 2 ar 28 Mai a bydd yn cau ar 26 Gorffennaf. Y gobaith yw cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd ond os bydd ymateb uchel, efallai y bydd rhaid oedi yr adborth hynny.

Amlinellodd Sarah yr opsiwn a ffefrir o ran trin a throsglwyddo ac o ran uned frys yn Glangwili ac Uned adsefydlu strôc yn Ysbyty Bronglais. Esboniodd Sarah yr opsiynau cychwynnol a ystyriwyd o ran ysbytai Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg.

Esboniodd Sarah fod sioe deithiol o ran yr ymgynghoriad ar draws y dair sir a bod modd ychwanegu sylwadau ar-lein, dros e-bost, ffurflen bapur neu mae yna rhif cyswllt ar gael petai rhywun eisiau sgwrs gyda swyddog.

Gofynnodd Mydrian a oedd na fater penodol yn gyrru y newidiadau yma, ac fe esboniodd Sarah fod yna Safonau Strôc newydd wedi'u cyflwyno ac mae'r gwasanaeth cyfredol yn fregus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwella'r gwasanaethau ac ystyried sut i ddarparu ar draws pedair safle.

Gofynnodd Lester, os nad oes cefnogaeth mewn egwyddor i'r cynlluniau yma, beth fydd y camau nesaf? Esboniodd Sarah fod gwaith ymgynghorol wedi ei gynnal yn 2025 a bod yr opsiynau wedi'u seilio ar y gwaith hynny. Bydd y Bwrdd yn ystyried yr holl adborth cyn gwneud penderfyniad. Bydd angen recriwtio mwy o staff er mwyn cyrraedd y Safonau Strôc cenedlaethol newydd.

Esboniodd Ardiana yr elfen ymgynghorol a'r broses ffurfiol o ran gwneud penderfyniad. Nodwyd hefyd fod rôl allweddol gan y BGC wrth esbonio fod strôc yn clefyd y gellir ei atal a bod cyfle i hyrwyddo negeseuon o ran gofal iechyd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth a staff.

Gofynnwyd cwestiwn o ran asesu effaith ar y Gymraeg a nodweddion gwarchodedig a sut y gellir rhoi camau lliniaru ar waith. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud pan fydd penderfyniadau wedi ei wneud.

Gofynnwyd i Aelodau y Bwrdd i gylchredeg y dogfennau ymgynghorol ymhlith rhwydweithiau -

[Ymgynghoriad strôc - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda]

Diolchwyd i Sarah ac i Rian am y cyflwyniad manwl ac am fod mor barod i ateb cwestiynau.

### 3. Diweddariad ar Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles

Croesawyd Rhian Rees, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus i'r cyfarfod i roi diweddariad ar y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles.

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth ymgorffori'r Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant ar draws Gorllewin Cymru. Mae'r dull yn ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy symud y pwyslais o drin salwch i atal, ymyrraeth gynnar a llesiant dan arweiniad y gymuned.

Nododd yr aelodau fod tlodi, ynysu cymdeithasol ac amodau byw ehangach yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau iechyd. Bydd cyflawni effeithiol yn gofyn am arweinyddiaeth draws-sector barhaus, cyd-gynhyrchu cymunedol, dull "dim drws anghywir" i gefnogi a buddsoddi mewn sgiliau gweithlu sy'n canolbwyntio ar atal. Mae'r cynnydd yn cynnwys grwpiau llywio amlasiantaeth rheolaidd, Cymuned Ymarfer gyda mwy na 90 o aelodau, datblygu gweithgaredd hyfforddi ac arloesi cymdeithasol, a chyfathrebu gwell. Nododd y Bwrdd y bydd llwyddiant hirdymor yn dibynnu ar newid diwylliannol a system ar draws gwasanaethau gofal cymunedol, sylfaenol ac eilaidd.

Tanlinellodd Ardiana bwysigrwydd y model i holl aelodau y Bwrdd ac i gymunedau. Mae 80% o'n iechyd ni yn ffactorau sydd y tu hwnt i fyd iechyd e.e addysg, byd gwaith, tai, trafnidiaeth ac ati.

Diolchodd Mydrian i Rhian am y cyflwyniad manwl gan nodi fod nifer o'r ystadegau a amlygwyd yn y cyflwyniad yn peri gofid iddo, a bod cyfle euraidd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu at y model. Amlygodd Mydrian rhai o'r gwasanaethau y mae'r Gwasanaeth Tân yn eu cynnig o ran pobl fregus, pobl sydd yn byw gyda dementia ac ati ac fe awgrymodd bod yr aelodau unigol yn cyflwyno'r negeseuon strategol yma yn ôl i'w byrddau unigol, er mwyn gwireddu amcanion y model. Tanlinellodd Mydrian bwysigrwydd staff yr aelodau wrth wireddu'r model hefyd, gan fod staff yn cefnogi teuluoedd a chymunedau ac yn gallu rhannu negeseuon o ran iechyd a lles.

Tanlinellodd y Cadeirydd y pwysigrwydd o siarad yn bositif am gymunedau yn lleol a cydnabod bod yna waith da yn digwydd ar draws y Sir.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Sicrhau fod yr Hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif ar gael ar gyfer pob sefydliad a staff llinell flaen.
- Rhannu y Siartr Digwyddiad Model Cymdeithasol a Lles ymhlith yr aelodau fel bod modd i Aelodau ystyried yn ôl yn y sefydliadau unigol.
- Ystyried y sianelu cyfathrebu sydd ar gael er mwyn hyrwyddo y negeseuon Model Cymdeithasol ymhlith staff a chymunedau

**4. Uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion**

Esboniwyd bod y Tasglu sydd wedi bod yn paratoi ar gyfer uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi paratoi a thrafod Cynllun Lles Interim ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2026 hyd at cytuno Cynllun Lles newydd ar y cyd erbyn mis Mai 2028. Mae'r tasglu wedi mapio allan y gwaith sydd wedi ei wneud o fewn Cynlluniau Llesiant y ddwy sir a'r gwaith sydd yn weddill, er mwyn cynnig cynllun interim sy'n rhoi ffocws i waith y Bwrdd unedig.

Yn dilyn y gwaith mapio, dyma'r tri maes ffocws a gynigir ar gyfer y cyfnod nesaf, sef

- Bwyd a Llesiant
- Tlodi a Chaledwch
- Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur

Fel rhan o'r ddogfen a gylchredwyd i Aelodau, mae yna nodau strategol a pwyntiau gweithredu arfaethedig sy'n eistedd o dan y tri maes, a'r gobaith yw adeiladu ar y gwaith

da sydd eisoes yn digwydd yn y ddwy sir a chreu cyfleoedd o'r newydd a fydd yn ein helpu ni wrth adeiladu yr Asesiad Lles ac wrth baratoi y Cynllun Lles ar y cyd.

Bydd Aelodau yn gyfarwydd a'r gwaith sydd wedi ei wneud o ran y Strategaeth Fwyd a'r gwaith y mae Beth Cossins a Geinor Jones wedi ei wneud o ran Pwysau Iach, Cymru Iach a'r gwaith pellach ar Caffael Bwyd yn y sector gyhoeddus drwy Gwreiddiau Newid.

Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion is-grŵp Tlodi, sydd wedi arwain ar nifer o fentrau gwrth-dlodi a helpu gyda'r cynnydd mewn costau byw. Eto, mae hyn yn gyfle i ni ddysgu wrth ein gilydd a gweld sut y gallwn ni adeiladu ar y gwaith ar y cyd.

O ran Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur, nodwyd fod yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd a baratowyd gan y ddwy sir mewn partneriaeth a Cyfoeth Naturiol Cymru a Miller Research yn sail arbennig i'r cam nesaf o weithgarwch ac i gefnogi aelodau'r Bwrdd i wireddu yr argymhellion yn yr adroddiad.

Bydd y Cynllun Lles interim yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd Unedig ar 15 Medi 2026.

**5. Asesiad Llesiant Lleol**

Mae'r ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant Lleol wedi bod ar agor ers 8 Mehefin 2026 a bydd yn cau ar 8 Awst 2026, yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Diolchwyd i bob sefydliad am eu cefnogaeth wrth lunio'r holiadur, rhannu negeseuon a mynychu digwyddiadau ond esboniwyd fod dal amser yn weddill er mwyn cyrraedd mwy o bobl o gymunedau amrywiol.

Ar hyn o bryd, mae 655 o ymatebion wedi dod i law i'r prif holiadur a 255 o ymatebion i'r fersiwn pobl ifanc. Dy ni wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau a chyfarfodydd er mwyn ennyn diddordeb hefyd, megis Diwrnod Lluoedd Arfog Cenedlaethol Cymru, Sioe Aberystwyth, Gŵyl Plant a Phobl Ifanc Ceredigion a Phartneriaeth Mwy yn Gyffredin Llanelli.

Bydd adroddiad ymgynghorol drafft yn cael ei drafod yn y Bwrdd Unedig ar 15 Medi 2026.

Mae'r grŵp awduron wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi llunio templed drafft o ran yr Asesiad a nodwyd y bydd copi yn cael ei gylchredeg i Aelodau yn fuan, ar gyfer sylwadau a syniadau.

**6. Cofnodion a gweithredoedd**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2026 fel cofnod cywir.

Nododd yr aelodau fod yr holl gamau sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau.

**7. Adroddiad Blynyddol Cyngor Llanelli Wledig 2025-26**

Mae cyfrifoldeb ar y Cynghorau Cymuned a Thref sy’n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i baratoi adroddiad blynyddol sy’n dangos sut mae yn gwireddu’r Ddeddf ac yn cyfrannau at Nodau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae Cyngor Llanelli Wledig wedi ei danfon ei adroddiad blynyddol atoch fel aelodau, er sylw.

Diolchwyd iddynt am y gwaith diwyd yn ystod y flwyddyn ac am ddanfon copïo ymlaen atom.

8. **Diweddariad Strategaeth Fwyd**

Derbyniwyd diweddariad oddi wrth Alex Cook.

Nodwyd fod y Bwrdd Rhaglen ar gyfer y Strategaeth Fwyd ar fin ei sefydlu, a bydd gwahoddiad yn cyrraedd yr Aelodau o fewn y diwrnodau nesaf. Gofynnwyd i bartneriaid y BGC i enwebu swyddog cyfrifol o fewn eu sefydliadau er mwyn cael cynrychiolaeth ar y Bwrdd.

Mae gwahoddiadau wedi’u cylchredeg ar gyfer Panel Ymgynghorol i gynrychioli’r sector ac mae cylch gorchwyl drafft wedi ei baratoi.

Yn ogystal, mae yna dri gweithgor, a fydd yn ffocysu ar

- Ddarpariaeth sector cyhoeddus
- Economi bwyd lleol
- Bwyd ar gyfer Iechyd y Cyhoedd

Mae cais wedi ei wneud ar gyfer rôl Rheolwr Rhaglen, er mwyn sefydlu’r rôl am 18 mis / dwy flynedd. Cyngor Sir Gar sydd wedi gwneud y cais i Lywodraeth Cymru.

Mae Alex Cook yn cydweithio gyda’r Uned Farchnata a’r cyfryngau yn y Cyngor er mwyn paratoi rhaglen hir-dymor i hyrwyddo’r Strategaeth a bydd drafft yn mynd i Fwrdd y Rhaglen mor fuan ag sy’n bosib. Mae Alex hefyd yn gweithio gyda’r Tim Perfformiad er mwyn datblygu dashfwrdd er mwyn monitro’r gwaith gan anelu at fis Ebrill 2027 i’w gwblhau.

**Diweddariad Llywodraeth Cymru**

**Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**

Oherwydd problemau gyda risgiau lluosog ar gyfer prosiect Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (FTR) yn dod yn broblemau - gan gynnwys cael mynediad at amserlenni data, yr amserlenni ar gyfer y gweithgareddau ymgysylltu ac aflonyddwch i adnoddau mewnol - mae dyddiad cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol wedi'i ohirio o Ragfyr 2026 i Chwefror 2027.

Felly, ni fydd yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol nesaf ar gael mewn pryd i lywio'r Asesiadau Llesiant cynharaf sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â BGCau ar oblygiadau hyn ac yn datblygu cyngor ar sut y gall partneriaethau barhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol tra bod yr adroddiad yn cael ei gwblhau.

Rydym yn obeithiol y gellir sicrhau bod elfennau o'r dystiolaeth a'r mewnwelediad a ddatblygwyd trwy'r broses Tueddiadau'r Dyfodol yn dal i fod ar gael i bartneriaethau mewn modd amserol.

Yn y cyfamser, dylai BGCau barhau i dynnu ar ddeunydd Tueddiadau'r Dyfodol presennol, rhagamcanion demograffig, gwybodaeth leol ac arbenigedd partneriaid wrth ystyried cyfleoedd, risgiau a heriau yn y dyfodol.

**Ymarfer Gwrando**

Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i ymarfer gwrando gyda BGCau i lywio trefniadau ariannu a chefnogi yn y dyfodol. Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (CoPro) bellach wedi dechrau'r ymarfer gwrando ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gwahoddiadau wedi'u rhoi i Gadeiryddion a Chydlynwyr y BGCau i dynnu ar brofiad y BGCau o ran:

Bydd cyngor gweinidogol yn cael ei ddatblygu yn Hydref 2026, wedi'i lywio gan yr ymarfer gwrando, i helpu i lunio'r model ariannu a chefnogi ar gyfer y dyfodol ar gyfer BGCau.

Anogir aelodau i hyrwyddo cyfranogiad yn yr ymarfer gwrando ac atgoffa Cadeiryddion a Chydlynwyr o'r cyfle i gyfrannu eu barn.

**Adolygiad o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae maniffesto Plaid Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r Ddeddf a gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ei fod yn cyflawni newid ystyrlon, mesuradwy ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru. Mae gwaith cynnar ar sut olwg sydd ar yr adolygiad hwn yn cael ei asesu, gan gynnwys ei strwythur, amserlen, cost a chwmpas. Bydd yr adolygiad yn digwydd ac yn cael ei gwblhau yn ystod tymor y Senedd hon.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar ddod o hyd i atebion i'r problemau o fewn y Ddeddf, fel y nodir mewn nifer o adroddiadau megis adroddiad y Pwyllgor ESJ a'r adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Er nad oes dim wedi'i gwblhau na'i gytuno gan Weinidogion, mae hyn bron yn sicr o gynnwys ystyriaethau a materion allweddol ar gyfer BGCau, megis amserlenni adrodd, baich adrodd, cynghorau cymuned a chraffu ar BGCau.

## 9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

15 Medi 2026 am 2 y prynhawn – cyfarfod cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Unedig Sir Gâr a Cheredigion